Adroddiad ar

Ysgol y Fro

Llangyndeyrn
Cydweli
SA17 5BW

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol y Fro

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol y Fro |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3 |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 21 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 15 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | * |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | * |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | * |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 73.3% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi’r pennaeth dros dro | 03/09/2024 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 12/12/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 17/02/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae'r pennaeth dros dro yn darparu ethos cartrefol a Chymreig i ddisgyblion feithrin eu lles a mwynhau eu dysgu mewn amgylchedd cynhwysol. Caiff ei chefnogi'n addas gan gorff llywodraethol sy'n sicrhau bod yr ysgol yn rhan bwysig o'r gymuned. Er hyn, nid yw aelodau'r corff yn gweithredu eu dyletswyddau'n ddigon bwriadus, er enghraifft wrth gydweithio ag arweinwyr i fonitro a gwerthuso'r addysgu a'r dysgu. Mae hyn yn golygu nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth i gefnogi a herio'r athrawon i adnabod beth mae'r ysgol yn ei wneud yn dda a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Daeth un mater diogelu i'r amlwg yn ystod yr arolygiad.

Mae gan athrawon weledigaeth berthnasol sy'n cefnogi disgyblion i fod yn hapus yn yr ysgol ac i ddwysáu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn ystod addas o gyd-destunau dysgu. Mae'r ardaloedd dysgu yn fannau diddorol ble mae athrawon yn cyflwyno gweithgareddau sy'n cymell dysgu'r disgyblion yn briodol. Ar y cyfan, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau. Er hyn, nid yw lleiafrif y disgyblion yn cyflawni hyd orau eu gallu ar draws y meysydd dysgu, yn enwedig yn eu medrau ysgrifennu a rhifedd.

Mae gan yr athrawon berthynas weithiol gadarnhaol â'r disgyblion ac maent yn eu harwain i ddysgu yn dda. Maent yn rhoi cefnogaeth gyson i ddisgyblion sy'n meithrin eu hagweddau at ddysgu yn briodol. At ei gilydd, nid yw disgwyliadau athrawon o'r hyn mae'r disgyblion yn gallu ei gyflawni yn ddigon uchel bob tro, ac nid ydynt yn eu herio i gyflawni gwaith sydd i'r safon sy'n ddisgwyliedig ohonynt. Mae athrawon yn dechrau darparu cwricwlwm sy'n datblygu medrau'r disgyblion yn adeiladol dros gyfnod, ond mae hyn yn ei ddyddiau cynnar.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda â'r rheini ac aelodau'r gymuned ac mae'n rhan bwysig o'r ardal leol. Mae hyn yn cefnogi'r disgyblion i werthfawrogi'r Gymraeg, ynghyd â hanes a thraddodiadau lleol a chenedlaethol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pump argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Mynd i’r afael â’r mater diogelu a godwyd yn ystod yr arolygiad

A2. Sicrhau arweinyddiaeth gyson a chynaledig i’r ysgol

A3. Gwella gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn cryfhau’r ddarpariaeth a chodi safonau

A4. Cynllunio darpariaeth sy’n sicrhau’r ystod a’r ehangder ym mhob maes dysgu i gefnogi’r disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau

A5. Codi disgwyliadau athrawon i herio disgyblion i gyflawni hyd orau eu gallu

## Beth sy’n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o’r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â’r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob pedwar i chwe mis, fel arfer.

## Prif arfarniad

Dros gyfnod estynedig, mae arweinyddiaeth yr ysgol wedi bod yn ansefydlog. Mae hyn yn golygu nad oes cysondeb yn y prosesau i sicrhau bod yr ysgol yn gwneud cynnydd cynaledig mewn meysydd gwella pwysig dros gyfnod, er enghraifft mewn agweddau o’r addysgu a’r dysgu.

Yn dilyn ei phenodiad diweddar, mae’r pennaeth dros dro yn arddel diwylliant ac ethos cynhwysol sy’n cymell y disgyblion i ddysgu yn addas. Mae ganddi weledigaeth glir i hyrwyddo darpariaeth ofalgar sy’n meithrin lles a chefnogi’r disgyblion i deimlo’n hapus, i wneud cynnydd yn eu dysgu ac i fwynhau eu hamser yn yr ysgol.

Mae’r corff llywodraethol yn gefnogol i’r ysgol ac maent yn adnabod y gymuned mae’n ei gwasanaethu yn dda. Mae aelodau’r corff yn derbyn gwybodaeth am yr ysgol yn amserol trwy adroddiadau’r pennaeth. Fodd bynnag, nid yw’r llywodraethwyr yn chwarae rôl ddigon rhagweithiol i gyfrannu at gyfeiriad strategol yr ysgol. Er enghraifft, nid ydynt yn cydweithio ag arweinwyr i fonitro a gwerthuso effaith y ddarpariaeth ar gynnydd a safonau’r disgyblion yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, nid ydynt yn ddigon gwybodus am

nifer o agweddau pwysig y mae angen i'r ysgol eu gwella. Yn ogystal, daeth mater diogelu i'r amlwg yn ystod yr arolygiad.

Mae gan yr athrawon berthynas weithiol gadarnhaol â'r disgyblion ac maent yn eu cefnogi i ddysgu yn fuddiol. Maent yn ennyn a chynnal y disgyblion i ymgolli yn eu gweithgareddau yn dda ond nid yw'r gweithgareddau'n  cyfateb i oedran a cham datblygu'r disgyblion yn ddigon cyson. Mae tueddiad i athrawon or-arwain y dysgu sy'n llesteirio gallu'r disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol am y modd maent yn dysgu. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i wneud penderfyniadau, i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu ac i ddatblygu fel dysgwyr annibynnol.

Mae athrawon yn arddel safonau ymddygiad cyson ymysg disgyblion sydd, yn ei dro, yn meithrin a datblygu eu dealltwriaeth o barch ac empathi at eu hunain, eu cyfoedion ac athrawon. Yn gyffredinol, mae gan lawer o ddisgyblon agweddau buddiol at eu dysgu ac maent yn ymgolli yn eu gweithgareddau yn briodol. Er hyn, nid yw'r ddarpariaeth a'r addysgu yn cynnig digon o gyfleoedd estynedig i ddisgyblion gyfrannu'n gynyddol hyderus mewn cyd-destunau amrywiol.

Un o rinweddau amlycaf yr ysgol yw bod y disgyblion yn cyd-ddysgu a chyd-chwarae'n ddedwydd fel aelodau gwerthfawr o deulu'r ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at yr ymdeimlad eu bod yn rhan greiddiol o'r gymuned leol. Yn gyffredinol, mae mwyafrif y disgyblion yn dwysáu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn ystod briodol o gyd-destunau. O'u mannau cychwyn, mae'r athrawon yn cyflwyno gweithgareddau sy'n annog y disgyblion i ddatblygu eu medrau yn fuddiol. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion yn cael eu herio i gyflawni hyd orau eu gallu ar draws y meysydd dysgu. O ganlyniad, mae hyn yn arafu cynnydd y lleiafrif dros amser ac yn golygu nad ydynt yn cyflawni gwaith i'r safon sy'n cyfateb i'w hoed a'u cam datblygu.

Mae athrawon yn dechrau cynllunio cwricwlwm sy'n cefnogi dilyniant a pharhad ym medrau'r disgyblion mewn gweithgareddau ysgogol. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn fedrus mewn gweithgareddau creadigol. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth o elfennau sain wrth chwarae offerynnau a chreu sgôr graffig digidol. Mae athrawon yn dwysáu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ymhellach wrth gynnal arbrofion gwyddonol sy'n eu cefnogi i wneud cysylltiadau bwriadus mewn gweithgareddau diddorol. Er hyn, nid yw disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel bob tro i alluogi disgyblion i gyflawni hyd orau eu gallu ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, mae dealltwriaeth disgyblion o fathemateg yn ansicr ac nid yw'r ddarpariaeth yn eu cefnogi i gymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigon bwriadus mewn ystod gyfoethog o brofiadau dysgu.

Mae disgyblion yn dylanwadau ar yr hyn maent yn ei ddysgu ac yn datblygu eu dealltwriaeth o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith. Fodd bynnag, mae hyn yn ei ddyddiau cynnar. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn holi'r disgyblion yn fedrus er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth o wahanol feysydd dysgu. Mae athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion o ddydd i ddydd yn addas.

Mae athrawon yn darparu amgylchedd dysgu cynhwysol a chefnogol i'r disgyblion sydd, er enghraifft, yn hyrwyddo diwylliant darllen gwerthfawr. Trwy gynhaliaeth gyson yr athrawon, mae llawer o ddisgyblion yn cydweithio'n dda tra'n datblygu eu gallu i ddarllen, er enghraifft wrth ddilyn cyfarwyddiadau fel rhan o weithgareddau datrys problemau ymarferol.

O'u mannau cychwyn amrywiol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cyfathrebu yn effeithiol gan gaffael y Gymraeg yn llwyddiannus mewn gweithgareddau ysgogol yn yr amgylchedd dysgu, gan gynnwys yr ardal ddysgu allanol. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n ddigon effeithiol ar draws y meysydd dysgu. Mae ansawdd eu gwaith yn anaeddfed ac nid oes ganddynt afael digon cadarn ar elfennau sylfaenol iaith.

Un o rinweddau amlycaf yr ysgol yw ei chysylltiadau â'r gymuned leol. Er enghraifft, mae dealltwriaeth disgyblion o grefyddau a gwerthoedd gwahanol yn cael ei meithrin yn llwyddiannus trwy gysylltiadau agos â'r eglwys leol. Mae athrawon yn darparu gwybodaeth werthfawr i ddisgyblion am hanes a thraddodiadau'r ardal a Chymru yn ehangach, er enghraifft wrth iddynt gydweithio ag artist lleol i ddarlunio murlun ar yr iard sy'n olrhain hanes Llangyndeyrn. Yn ogystal, mae'r rhieni'n chwarae rhan flaenllaw wrth gefnogi'r ysgol yn fuddiol trwy gynnal amrywiaeth o weithgareddau i godi arian i brynu adnoddau angenrheidiol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn sicrhau defnydd priodol o'r grant datblygu disgyblion, serch hynny nid ydynt yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  23/04/2025